## PROSPECTWS UWCHRADD

# Ysgol Bro Hyddgen

## SECONDARY PROSPECTUS












brohyddgen.powys.sch.uk 2018-19

# 02 Gair o groeso

## Annwyl Rieni / Ofalwyr

Mae'n bleser cyflwyno'r llawlyfr hwn i'ch sylw. Un o'r penderfyniadau pwysicaf y mae'n rhaid i chi, fel rhieni, ei wneud yw dewis yr ysgol fwyaf addas i'ch plentyn. Yn naturiol, mae pob rhiant eisiau ysgol dda i'w plant, ond maent hefyd yn chwilio am ysgol lle bydd eu plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Credwn y gallwn gynnig y rhain i gyd yn Ysgol Bro Hyddgen.

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a hapus, lle mae disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed ac ymddwyn yn dda. Rydym yn deall bod gan blant wahanol gryfderau ac mae croeso i bob unigolyn yma. Mae ein niferoedd yn cynyddu bob blwyddyn ond rydym yn parhau yn ddigon bychan i allu rhoi gofal i bob plentyn a darparu ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Rydym yn falch iawn o gyrhaeddiad ein disgyblion yn yr arholiadau TGAU eleni, gyda 81% yn llwyddo i ennill 5 cymhwyster TGAU neu gyfwerth. Gallaf eich sicrhau bod athrawon yr ysgol yn darparu gwersi o ansawdd uchel. Rydym hefyd yn falch iawn o'n llwyddiant ym myd cerddoriaeth, ar y meysydd chwarae, yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd ac yn y nifer o glybiau sydd yn agored i bob disgybl. Mae gennym Chweched Ddosbarth poblogaidd iawn yn yr ysgol ac unwaith eto ymfalchïwn yn llwyddiant ein myfyrwyr eleni gyda 67% yn llwyddo i ennill graddau A* - C yn eu harholiadau Safon Uwch.

Mae perthynas agos rhwng y cartref â'r ysgol yn bwysig, ac mae croeso cynnes i chi gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg. Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda chi bob tymor am gynnydd eich plentyn. Mae eich plentyn chi yn bwysig i ni ac rydym yn credu y dylai'r amser yn yr ysgol fod yn fuddiol a gwerth chweil. Pe byddech yn penderfynu anfon eich plentyn i Ysgol Bro Hyddgen, rwyf i a'm staff yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir. Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn fuan, ac os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder, mae croeso i chi gysylltu â mi yn yr ysgol unrhyw amser.

Yn ddiffuant

Dafydd M B Jones

Pennaeth

## Ymweld â'r Ysgol

Mae croeso i rieni/ ofalwyr ymweld â'r ysgol ond gofynnwn yn garedig i chi ffonio ymlaen llaw er mwyn i ni allu trefnu i chi gyfarfod â'r aelodau perthnasol o staff.



# A word of welcome

## Dear Parents / Carers

It is a pleasure to present you with the school handbook. Choosing the right school for your child is one of the most important decisions a parent / carer will have to make. Parents want a good education for their children, but they also want their child to feel safe and secure and, above all else, happy.  At Ysgol Bro Hyddgen we believe that we can offer all of these.

This school is a welcoming, happy community where pupils are expected to work hard and behave well.  We welcome and understand the different strengths of all our pupils.  Since we are a small school we can cater for each pupil's needs and care for the individual pupil.  Our numbers are increasing but we are still small enough to be able to provide high quality care and opportunities to all our pupils.

We take particular pride in the attainment of our GCSE results this year, with 81% of pupils achieving at least 5 GCSE or an equivalent qualification. I can assure you the staff at the school will go out of their way to provide high quality lessons. We are also proud of our musical achievements and our successes at the Urdd Eisteddfod, on the playing field and in the numerous opportunities and clubs that are open to all. We have a very popular Sixth Form and we again take pride in their achievements with 67% gaining A* - C grades in their A level examinations.

A close relationship between home and school is important and parents are welcome to contact the school at any time. We update parents on the progress of their children every term.  We care for our pupils and we believe that their time at school should be rewarding and fulfilling.  Should you choose to send your child to Ysgol Bro Hyddgen, My staff and I are confident that you will have made the right decision.  I look forward to meeting you soon, and if you have any queries or concerns please contact me at the school at any time.

Yours sincerely

Dafydd M B Jones

Headteacher

## Visit the school

There is always a warm welcome for parents and carers at our school but we kindly ask you to arrange this before hand in order to ensure the relevant member of staff is available.



# 04 Ein Hysgol

## Nod yr Ysgol:

Datblygu phob unigolyn i'w botensial llawn yn addysgiadol ac yn gymdeithasol, fel y gall chwarae rhan llawn mewn cymdeithas a bod yn aelod gwerthfawr ohoni.



### Canlyniadau TGAU 2018:

5 A* - C neu gyfwerth: 81%

A* - G:   100%

### Canlyniadau Safon Uwch 2018:

A*-C:  67%

A - E  100%

## Croeso

Mae Ysgol Bro Hyddgen yn ysgol 4 – 18 oed, newydd ei sefydlu, o ryw 485 o ddisgyblion wedi ei leoli ar ddau safle ar gyrion tref Machynlleth.  Mae canran uchel o'r disgyblion yn byw yn y dref ac y mae'r lleill yn dod o gefndir gwledig.   Rydym yn derbyn disgyblion o dair sir: Powys, Gwynedd a Cheredigion.  Mae'r dalgylch ym Mhowys yn ymestyn mor bell â Charno yn y dwyrain ac Aberangell yn y gogledd-ddwyrain.  Awdurdod Addysg Powys sy'n gyfrifol am yr ysgol ond y mae trefniadau hefyd i dderbyn disgyblion o Wynedd a Cheredigion.

## Safle

Mae tir yr ysgol yn ddeniadol ac mae meysydd chwarae yr ysgol uwchradd wrth law adeilad yr ysgol.  Er bod gennym gampfa braf yn yr ysgol, rydym hefyd yn cael defnyddio'r cyfleusterau sydd yn y Ganolfan Hamdden gerllaw'r ysgol.  Mae lloches i feiciau ar gyfer y disgyblion sy'n beicio i'r ysgol. Agorwyd Canolfan Astudio Hyddgen yn mis Ionawr 2009.  Mae'r adeilad yn adnodd ardderchog sy'n cynnig amgylchedd ddysgu heb ei hail i blant yr ysgol.



# Our School

## Welcome

Ysgol Bro Hyddgen is a newly established 4 – 18 school of around 485 pupils, situated on two sites at the edges of the town. Although a large percentage of the pupils live in the town, a significant number come from a more rural background. We receive pupils from three counties: Powys, Gwynedd and Ceredigion. The Powys section of the catchment area extends as far east as Carno and to Aberangell in the north-east. The school is run by Powys Education Authority but arrangements are made for extra-district pupils from Gwynedd and Ceredigion.

## The School Site

The school grounds are attractive and the secondary schools playing fields are adjacent to the school and in excellent condition. Although we have a recently refurbished gymnasium, the school also makes use of the facilities available in the nearby Leisure Centre. There is a cycle shelter for pupils who cycle to school. The Hyddgen Centre opened in January 2009 and is a wonderful building which provides pupils with a state of the art learning environment.




## The School's Aim:

To develop each individual to his/her educational and social potential, so that he/she becomes a good citizen and a valued member of society.



### 2018 GSCE Results:

5 A* - C or equivalent: 81%

A* - G: 100%

### 2018 A Level Results:

A*- C: 67%

A* - E: 100%

# 06 Disgyblion newydd

## Dyddiadau'r tymhorau

| Dyddiadau bydd yr ysgol ar agor ar gyfer disgyblion | Gwyliau neu diwrnod di-ddisgybl |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref** | |
| 5/9/18—26/10/18 | 3/9/18 + 4/9/18 |
| Gwyliau Hanner tymor | 29/10/18—2/11/18 |
| 5/11/18—21/12/18 | 24/12/18—4/1/19<br>7/1/19 |
| **Tymor y Gwanwyn** | |
| 8/1/19—22/2/19 | 8/1/18 |
| Gwyliau hanner tymor | 25/2/19—1/3/19 |
| 4/3/19—12/4/19 | 15/4/19—26/4/19<br>29/4/19 |
| **Tymor yr Haf** | |
| 10/4/2018—25/5/2018 | 9/4/2018 |
| Gwyliau hanner tymor | 27/5/19—31/5/19 |
| 3/6/19— 19/7/19 | |
| Gwyliau'r Haf | |



## Trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd

Yn ystod Tymor yr Hydref cynhelir Noson Agored i ddisgyblion Blwyddyn 5 & 6 a'u rhieni i ymweld â'r ysgol. Yn ystod Tymor yr Haf cynhelir Rhaglen Pontio i blant Bl6 er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r adeilad a dod i adnabod rhai o'r athrawon.

Bydd Pennaeth Blwyddyn 7 ac aelodau o'r staff yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn y dalgylch er mwyn dod i adnabod y plant a'u galluogi i setlo'n hapus gyda'u ffrindiau pan fyddant yn cyrraedd Ysgol Bro Hyddgen.

Mae gan Ysgol Bro Hyddgen a'r ysgolion cynradd lleol bartneriaeth gwricwlaidd sy'n sicrhau datblygiad a dilyniant.

Mae gan yr ysgol le i 85 disgybl ym Mlwyddyn 7.

## Oriau'r Ysgol

Oriau agor Swyddfa'r Ysgol: 8.30 a.m.— 5.00 p.m.

| | |
|---|---|
| 9:00 - 9.20 | Cofrestru / Gwasanaeth / Cyfnod |
| 9.20 - 10.10 | Gwers 1 |
| 10.10 - 11:00 | Gwers 2 |
| 11:00 - 11:20 | Egwyl |
| 11:20 - 12:10 | Gwers 3 |
| 12:10 - 1:00 | Gwers 4 |
| 1:00 - 1:45 | Cinio |
| 1:45 - 2:35 | Gwers 5 |
| 2:35 - 3.25 | Gwers 6 |

# New Pupils

## Term dates

| Dates that school will be open for pupils | Holidays or non-pupil days |
|---|---|
| **Autumn term** | |
| 5/9/18—26/10/18 | 3/9/18 + 4/9/18 |
| Half term holiday | 29/10/18—2/11/18 |
| 5/11/18—21/12/18 | 24/12/18—4/1/19<br>7/1/19 |
| **Spring term** | |
| 8/1/19—22/2/19 | 8/1/18 |
| Half term holiday | 25/2/19—1/3/19 |
| 4/3/19—12/4/19 | 15/4/19—26/4/19<br>29/4/19 |
| **Summer term** | |
| 10/4/2018—25/5/2018 | 9/4/2018 |
| Half term holiday | 27/5/19—31/5/19 |
| 3/6/19— 19/7/19 | |
| Summer Holidays | |



## From Primary to Secondary

During the Autumn Term an Open Evening is held to which Year 5 & 6 primary pupils and their parents are invited. During the summer term transition days are held for Year 6 pupils so that they can familiarise themselves with the building and get to know some of the teachers who will be teaching them. Members of the school staff tour the primary schools in the catchment area to get to know pupils so that they can settle in happily with their friends when they join Ysgol Bro Hyddgen.

Ysgol Bro Hyddgen and the local primaries have established curricular links so that there is progression and continuity.

The standard admission number for the school is 85.

## School Hours

School Office hours: 8.30 a.m. - 5.00 p.m.

| | |
|---|---|
| 9:00 - 9.20 | **Registration / Assembly /Pastoral** |
| 9.20 - 10.10 | Lesson 1 |
| 10.10 - 11:00 | Lesson 2 |
| 11:00 - 11:20 | Break |
| 11:20 - 12:10 | Lesson 3 |
| 12:10 - 1:00 | Lesson 4 |
| 1:00 - 1:45 | Lunch |
| 1:45 - 2:35 | Lesson 5 |
| 2:35 - 3.25 | Lesson 6 |

# 08 Cwricwlwm

Mae Ysgol Bro Hyddgen yn darparu ystod lawn o gyrsiau uwchradd i safon TGAU, UG (Uwch Gyfrannol) ac Uwch (Safon A). Rydym hefyd yn darparu nifer o gyrsiau galwedigaethol er mwyn cyrraedd mesur Llywodraeth Cynulliad Cymru o gael dewis 30 o bynciau safon uwch gydag o leiaf 5 o'r rhain yn bynciau galwedigaethol (BTEC neu OCR Cenedlaethol).

Mae mwyafrif yr addysg yn yr ysgolion cynradd yn Gymraeg ei natur ac mae Ysgol Bro Hyddgen yn dilyn y patrwm hwn.

## Cyfnod Allweddol 3: Blynyddoedd 7, 8 a 9

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n creu cydbwysedd rhwng yr 11 maes y cyfeirir atynt yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a hefyd elfennau trawsgwricwlaidd megis Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Thechnoleg Gwybodaeth.

Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael i ddisgyblion gydag anawsterau dysgu.

Rhoddir ffocws arbennig ar ddatblygu a gwella sgiliau llythrennedd a rhif y disgyblion. Ymhyfrydwn yn y ffaith ein bod ni yn Ysgol Bro Hyddgen wedi bod yn flaengar iawn wrth ymroi mor frwdfrydig i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhif Genedlaethol ac yn wir i arwain y ffordd yng nghanolbarth Cymru yn y maes hwn. Ein bwriad ymhob agwendd o'n gwaith yw rhoi'r cyfle i'r disgyblion fod â'r medrau i'w galluogi i wireddu eu breuddwydion yn ystod yr 21ain ganrif.

## Cyfnod Allweddol 4: Blynyddoedd 10 ac 11

Mae Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn bynciau statudol yn ysgolion Cymru.

Mae'r disgyblion yn gwneud eu dewis eu hunain o dri phwnc TGAU ar gyfer gweddill y cwricwlwm. Yn ogystal â phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, rydym hefyd yn cynnig cyrsiau TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol, Astudiaethau Busnes, Drama, Technoleg Gwybodaeth ac Addysg Gorfforol.

Rydym yn arloesi drwy ddysgu cwrs BTEC (cyfwerth â 2 bwnc TGAU) mewn Amaethyddiaeth. Mae hyn yn adlewyrchu natur yr ardal ac yn rhoi cyfle gwych i bobl ifanc gael mynediad i gyrsiau Prifysgol megis Amaeth neu Rheolaeth Cefn Gwlad.

Ynghyd â hyn oll mae disgyblion Blynyddoedd 10 ac 11 yn astudio ar gyfer cymhwyster Canolradd Bagloriaeth Cymru.

Rydym yn cydweithio â sefydliadau Addysg Bellach i gynnig opsiwn galwedigaethol, megis Harddwch a Thrin Gwallt, Adeiladwaith a Thrin Ceir.

Mae gan yr ysgol hon ymrwymiad i roi cyfle cyfartal i bob disgybl.

## Cyfnod Allweddol 5: Blynyddoedd 12 ac 13

Ers mis Medi 2011 mae mwy o ddewis ar gael i'r Chweched Dosbarth gyda'r ysgol yn gweithio mewn partneriaethau â darparwyr eraill. Rydym wedi sefydlu partneriaeth gydag Ysgolion Penweddig a Llanidloes a Choleg Meirion Dwyfor er mwyn cynnig cyrsiau BTEC Amaethyddiaeth, Bioleg, Electroneg, Gwleidyddiaeth, Iechyd a Gofal, Cymdeithaseg ac Addysg Awyr Agored. Mae'r myfyrwyr hefyd yn astudio ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru , rwan sy'n gymhwyster cydnabyddedig gwerth ei gael.



# Curriculum



Ysgol Bro Hyddgen provides the full range of secondary courses up to GCSE, AS and A levels. We also provide a number of vocational courses in order to reach the Welsh Assembly Government measure of offering 30 advance level subjects with at least 5 of these being vocational subjects (BTEC or OCR Nationals).

The majority of primary schools are predominantly Welsh in linguistic character and the pattern is continued in Ysgol Bro Hyddgen.

## Key Stage 3: Years 7, 8 & 9

The school offers a curriculum which creates a balance between the 11 curricular areas referred to in the National Curriculum and cross curricular elements such as Personal and Social Education and IT. Particular focus is placed on developing and improving the pupils' literacy and numeracy skills. At Ysgol Bro Hyddgen, we have been innovative in adapting the curriculum to meet with the National Literacy & Numeracy Framework requirements and we are proud to be seen to be leading the way in mid Wales in this field. Our intention in every aspect of our work is to equip the pupils with the required skills to enable them to realize their dreams in the 21st century.

## Key Stage 4: Years 10 & 11

Welsh, English, Mathematics and Science are compulsory for all pupils in Wales. Individual arrangements are made for pupils from outside Wales who arrive late in Years 10 or 11.

The rest of the curriculum is made up of pupils' choice of 3 GCSE subjects. In addition to the National Curriculum subjects, we also offer GCSE Religious Studies, Business Studies, Drama, IT and Physical Education.

We also provide a BTEC course in Agriculture (which is equivalent to 2 GCSE's). This course reflects the rural nature of the area and provides an excellent opportunity for our young people to move on to Agricultural and Countryside Management courses at University.

Alongside the above, Year 10 & 11 pupils also study for the Welsh Baccalaureate Intermediate Qualification.

We collaborate with Further Education establishments to offer vocational choices such as Construction, Car Mechanics, Beauty and Hairdressing.

The school is committed to providing all pupils with equal opportunities.

## Key Stage 5: Years 12 & 13

Since September 2011 there has been a wider choice available to Sixth Form students with the school working in partnership with other providers. We have established a partnership with Ysgol Penweddig, Ysgol Llanidloes and Coleg Meirion Dwyfor in order to offer BTEC courses in Agriculture, Biology, Electronics, Politics, Health & Social, Sociology and Outdoor Activity Education. The students also study for the Welsh Baccalaureate Higher Qualification, which is a nationally recognised qualification.





# 10 Ysgol a Chartref

## Sut gall rhieni helpu

Disgwylir i rieni / ofalwyr gynorthwyo gydag addysg eu plant drwy sicrhau fod disgyblion yn mynychu'r ysgol ar amser ac yn gwisgo eu gwisg ysgol. Dylai pob plentyn gadw at yr oriau statudol ar gyfer gwneud gwaith cyflogedig tu allan i oriau ysgol a chael trwydded o'r Swyddfa Addysg Bro yn Y Drenewydd os ydynt yn derbyn cyflog. Gobeithir y byddwch yn gallu cefnogi eich plant pan fyddant yn mynd ar dripiau addysgiadol, gemau ac ymweliadau.

Gwahoddwn chi i gyfarfod blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr sydd yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn yn nhymor yr Hydref a hoffem eich gweld yn dod i Nosweithiau Rhieni ble mae cyfle i chi drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athrawon.

Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol â'r cartref yn sicrhau amser hapus a llwyddiannus i'ch plentyn yn Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r Llyfr Cyswllt yn fodd i chi anfon neges at y Tiwtor Dosbarth a chadw llygad ar gynnydd eich plentyn. Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol unrhyw amser.

## Gwaith Cartref

Mae cwblhau gwaith cartref yn un o'r ffactorau sy'n gallu lleihau'r gwahaniaeth rhwng y plant sy'n llwyddo â'r plant sy'n tangyflawni. Mae angen cwblhau'r gwaith yn daclus a'i gyflwyno'n brydlon. Mae angen rhoi digon o amser i wneud y gwaith yn iawn.

Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn wneud cynnydd, mae gennym Glwb Gwaith Cartref. Yn y fan hon rydym yn gallu rhoi help i ddisgyblion sydd heb orffen y gwaith gartref neu sydd angen help gyda rhai tasgau. Mae Cymorthyddion Cefnogi Dysgu profiadol yn cynnal y Clwb Gwaith Cartref yn y Llyfrgell ac yn yr ystafell gyfrifiaduron. Mae ar agor o 8.30 y bore, yn ystod yr awr ginio a than 4.30 y pnawn ac mae croeso cynnes i bob disgybl.

Dylai disgybl nodi'r dasg Gwaith Cartref yn y Llyfr Cyswllt a'r dyddiad ar gyfer ei gyflwyno i'r athro. Gofynnwn i rieni arwyddo'r Llyfr Cyswllt bob wythnos. Gofynnwn hefyd i rieni ofalu bod gan y plentyn le tawel, addas i wneud y gwaith cartref a bod y gwaith yn cael ei wneud yn daclus hyd eithaf gallu'r plentyn. Mae trefniadau a thasgau arbennig ar gael i ddisgyblion gydag anawsterau dysgu.

## Asesu

Mae'r broses asesu yn cychwyn gyda'r wybodaeth a dderbynnir am lwyddiant, cyrhaeddiad ac anghenion eich plentyn pan fydd yn trosglwyddo o'r cynradd. Yn Ysgol Bro Hyddgen defnyddir nifer o dechnegau asesu i brofi'r sgiliau a'r medrau sydd gan y disgybl, yn amrywio o brofion ysgrifenedig a llafar i waith cwrs a hunan asesu. Ceir darlun llawn o'ch plentyn allan o hyn oll.

Bydd cysylltiad ffurfiol gyda rhieni bob tymor ar ffurf naill ai adroddiad llawn, adroddiad interim neu Noson Rhieni. Bydd yr adroddiad llawn yn cynnwys crynodeb o bresenoldeb eich plentyn yn ystod y flwyddyn a'i ddatblygiad personol (e.e. sylwadau ar ymddygiad a chyfraniad i fywyd yr ysgol) yn ogystal ag adroddiadau pynciol. Bydd yr adroddiad interim yn eich hysbysu am ymdrech a chyrhaeddiad eich plentyn. Darperir adroddiad ar Waith Cartref hefyd yn ystod Cyfnod Allweddol 3.

# School and Home



## How Parents Can Help

Parents and carers are expected to help their children's education by sending their children to school on time and dressed in their school uniform. Their children should keep to the statutory hours that children are allowed to work outside school hours, and parents should acquire a licence from the Area Education Office at Newtown if pupils do paid work. It is hoped that parents will support their children when they go on educational visits.

Parents and guardians are invited to the Parents/Governors' annual meeting during the Autumn Term and we would very much like to see you at the Parents' Evenings where you have the opportunity to discuss your child's progress with the teachers.

Co-operation between the home and the school ensures a happy and successful career at Ysgol Bro Hyddgen. The Contact Book encourages parents to write to the Form Tutor and allows you to monitor your child's progress. You are welcome to contact the school whenever the need arises.

## Homework

Completing Homework is one of the major factors in narrowing the gap between children who succeed and those who underachieve. Homework should be given due time and attention and should be presented neatly and on time.

In order to maximise the opportunities for every child to make progress, we have established Homework Clubs. Here we can help pupils who have not been able to complete work at home or who need help with particular questions. The Club is staffed by experienced Learning Support Assistants in the Library and in a Computer Room. It is open at 8.30 in the morning, during the Lunch Hour and until 4.30 p.m. after school. All pupils are welcome to attend.

Pupils should note the Homework task in their Contact Book as well as the date the task is due in. Parents are asked to sign the Contact Book every week. We also ask parents to support the child by providing him/her with a quiet, suitable place to complete homework, and by ensuring that all tasks are presented neatly and are done to the best of the child's ability. When a child has special needs, special arrangements will be made to ensure the tasks are within their capability.

## Assessment

Assessment starts with the information we receive about the successes, the achievements and the needs of your child when he/she transfers from the primary school. In Ysgol Bro Hyddgen many assessment techniques are used to prove the skills and accomplishments of pupils: we look at written, practical, oral work, coursework, tests, examinations, observation and self-assessment. This gives a rounded picture of your child.

There will be formal contact with parents once every term: a full report, an interim report, or a Parents' Evening. The full report will include a summary of the pupil's attendance, personal development (e.g. comments on behaviour and contribution to school life) as well as subject reports. The interim report will keep you informed about effort and attainment. At Key Sage 3, a homework report is also provided.

# 12 Ymddygiad

Mae gan Ysgol Bro Hyddgen ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad da. Rydym yn disgwyl i bob disgybl ymddwyn yn dda a gweithio'n galed. Mae'r staff yn trin disgyblion gyda pharch ac yn disgwyl parch ganddynt. Rhaid i ddisgyblion drin ei gilydd gyda pharch hefyd. Gwobrwyir y disgyblion hynny sy'n gweithio ac yn ymddwyn yn dda.

## Cod Ymddygiad yn Ysgol Bro Hyddgen

- Rhaid trin eraill yn yr un ffordd y byddech chi yn hoffi cael eich trin eich hunan.
- Defnyddiwch iaith sy'n dderbyniol wrth siarad â'ch gilydd, wrth athrawon ac ymwelwyr.
- Dangoswch barch at bobl eraill, at waith ysgol at eich eiddo eich hun ac eiddo pawb arall.
- Gwrandewch ar yr athrawon ac ar eich gilydd.
- Cydweithiwch gyda'ch athrawon.
- Dysgwch gydweithio â'ch gilydd.
- Symudwch yn drefnus o gwmpas yr ysgol.
- Cyrhaeddwch yn brydlon a byddwch yn barod am wers gyda llyfrau ac offer.
- Dangoswch barch at ymddangosiad yr ysgol.
- Gweithiwch yn galed bob amser

## Disgyblaeth Bositif

Er mwyn meithrin a chynnal ymddygiad da, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn system gyfrifiadurol soffistigedig ar gyfer cofnodi ymddygiad da a drwg. Os bydd y disgyblion yn ymddwyn yn dda, bydd rhieni yn derbyn negeseuon testun a'ch plant yn derbyn tystysgrifau a gwobrau eraill.

Os bydd disgybl yn camymddwyn, bydd hynny yn cael ei gofnodi'n electroneg a chaiff neges destun ei hanfon adref, ac efallai bydd angen trefnu cyfweliad i drafod yr ymddygiad a sut y gallwn helpu'r disgybl wella. Gall cosb gynnwys aros i mewn yn ystod amser egwyl neu amser cinio, neu ar ôl ysgol (rhoddir o leiaf 24 awr o rybudd os bydd hyn digwydd). Mae'n bosib y caiff y plentyn ei roi ar adroddiad.

Pe digwydd i ddisgybl barhau i ymddwyn yn wael neu i wneud rhywbeth difrifol, gallai gael ei atal o wersi neu o'r ysgol am gyfnod o amser. Mae hawl gan yr ysgol i wahardd disgybl am 45 diwrnod mewn blwyddyn. Os bydd disgybl yn cael ei wahardd am fwy na 5 diwrnod, mae panel y Bwrdd Llywodraethol yn cyfarfod i ystyried y gwaharddiad. Os bydd y disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol, yna mae'n rhaid i'r penderfyniad gael ei gadarnhau gan banel y Corff Llywodraethol, a'i dderbyn neu ei newid. Os yw rhiant / ofalwr yn dymuno apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ynglŷn â gwaharddiad a wnaed gan yr ysgol, yna dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethwyr a'r Cyfarwyddwr Addysg.

Mae'r ysgol yn sefyll yn gryf yn erbyn bwlio. Anogir pob disgybl i ddweud wrth ei Diwtor Dosbarth (neu unrhyw aelod o'r staff) am unrhyw ddigwyddiad ac mae 2 focs postio ar gael i alluogi'r disgybl roi neges gyfrinachol (wedi ei arwyddo) ynglŷn ag unrhyw beth sy'n ei boeni.

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynyddoedd 7 – 11 adael tir yr ysgol ar unrhyw adeg. Ar gais ysgrifenedig rhieni, gall disgyblion Blwyddyn 11 fynd i'r dref amser cinio (mae hyn yn amodol ar ymddygiad da yn yr ysgol a thu allan). Caniateir i fyfyrwyr Blynyddoedd 12 &13 adael tir yr ysgol amser cinio. Dylai ffonau symudol gal eu cadw ar "silent" yn ystod gwersi. Dylai eitemau gwerthfawr gael eu cadw'n ddiogel yn y Swyddfa.

# Behaviour



Ysgol Bro Hyddgen has high expectations of good behaviour. All pupils are expected to work hard and to behave well. Staff treat pupils with courtesy and expect courtesy in return. Pupils are expected to treat each other with respect. Those who behave particularly well are rewarded.

## Code of behaviour at Ysgol Bro Hyddgen

- Treat others as you would like to be treated by them.
- When you speak to each other, to teachers and to visitors, use language that is appropriate.
- Show respect for other people, for your school work, for your property and the property of others.
- Listen to teachers and to each other.
- Co-operate with your teachers.
- Learn to work together.
- Move about the school in an orderly way.
- Arrive promptly and be ready for lessons with books and equipment.
- Take pride in the appearance of the school.
- Work hard at all times.

## Positive Discipline

In order to encourage and sustain good behaviour, the school has invested in a highly sophisticated computer system for recording and collating good and bad behaviour. In the case of good behaviour, this will lead to parents receiving letters of commendation, and pupils will be given certificates and other rewards.

In the case of bad behaviour, the computer triggers a sequence of events beginning with a letter and continuing with an invitation to attend a meeting to discuss the problem and how best to help the pupil mend his/her ways. Sanctions include break or lunch-time detention, being placed 'on report' or after school detention (parents will be given 24 hours' notice of this)

If a pupil persistently misbehaves or his/her behaviour is particularly unacceptable, he/she will be suspended from lessons or from school for a period of time. The school has the right to suspend pupils for 45 school days a year. If a pupil is suspended for more than 5 days, a Governing Body panel meets to consider the suspension. If a pupil is to be expelled permanently, then this decision is discussed by a Governors' Panel and will be either confirmed or changed. There is a right of appeal which should be made in writing to the Chairperson of the Governing Body and the Director of Education.

The school makes a strong stand against bullying. All pupils are encouraged to tell tutors (or any member of staff) about any incident. Two post boxes are placed in the school for any child to write a (signed) note in confidence to the Headteacher about anything which is upsetting them.

Year 7- 11 pupils are not allowed to leave the school grounds at any time; Year 11 pupils are allowed to go into town during the lunch break if permitted by parents (this privilege depends on good behaviour at school and outside); Years 12 & 13 are allowed to leave the school at lunch time. Mobile phones should be set at 'silent' during lessons. Items of value should be given in at the Office where they will be stored in a safe.

# 14 Gwobrau

## Ysgoloriaeth Lynda Harding

- Ysgoloriaeth i ddisgybl ym Mlwyddyn 12 i ymgymryd ag astudiaethau arbennig.

## Cronfa John Edwards

- Disgyblion o Gemaes a Llanwrin

## Tlws y Ceffyl Du

- Tlws blynyddol i Ddisgybl y Flwyddyn

## Gwobr Goffa Mared Elfyn

- Tlws er cof am Mared Elfyn

## Cwpanau a Thariannau:

- Cwpan Meiriona Jones
- Cwpan J Wyn Thomas
- Cwpan Valerie James
- Cwpan Menna Wyn Price
- Tarian Adwy Deg
- Tarian J Michael Williams
- Cwpan Lis Puw
- Gwobrau pynciol
- Gwobrau Grwpiau Tiwtor

**Gwobr Lynda Harding Award**



Malen Aeron

Disgybl y flwyddyn - Gwobr Y Ceffyl Du
Pupil of the year - The Black Horse Award



Dafydd Evans

Gwobr Berfformio / Performance Award







Tarian Adwy Deg / Adwy Deg Trophy



Owen Kimpton

# Awards

## Lynda Harding Scholarship

- A scholarship for Year 12 pupils to undertake specific studies

## John Edwards Exhibition

- An award for pupils who live in the Cemaes and Llanwrin area.

## Black Horse Award

- An annual trophy for the Pupil of the Year

## Gwobr Goffa Mared Elfyn

- An award in memory of Miss Mared Elfyn

## Cups and Shields:

- Cwpan Meirionna Jones
- Cwpan J Wyn Thomas
- Cwpan Valerie James
- Cwpan Menna Wyn Price
- Tarian Adwy Deg
- Tarian J Michael Williams
- Cwpan Lis Puw
- Subject Prizes
- Tutor Group Prizes

**Cwpan J. Wyn Thomas Cup**



**Tilly Scriven**

**Cwpan Menna Wyn Price Cup**



**Sophie Jones**

**Cwpan Mrs Nerys Williams Cup**



**Holly Vincentelli**

**Gwobr Goffa Mared Elfyn / Mared Elfyn Memorial Award**



**Ffion Davies**

# 16 Bugeiliol

Mae gan yr ysgol drefn ar gyfer gofal bugeiliol:

- Mr Tegid Owen: Blwyddyn 7, 8, 9 a Throsglwyddo
- Miss Dela Wyn Jones: Blwyddyn 10 ac 11
- Mr Llifon Ellis: Blwyddyn 12 a 13

Mae'r ofalaeth hon yn dod â phob agwedd o ddatblygiad disgybl at ei gilydd, ac mae hyn yn rhan o'r hinsawdd o ofal sydd gennym yn Ysgol Bro Hyddgen

Mae cyfnod byr bob bore pan gall y Tiwtor Dosbarth fonitro cynnydd a dod i adnabod y disgyblion unigol yn y Dosbarth Cofrestru. Os bydd problem yn codi ym mywyd ysgol y disgybl, fe fydd yn adnabod y Tiwtor Dosbarth yn ddigon da i fedru dod ato i drafod y broblem. Mae'r Tiwtor Dosbarth hefyd yn cynnal cyfweliadau unigol efo plant ei ddosbarth.

## Anghenion Addysgol Arbennig

Mae Polisi Anghenion Arbennig yr ysgol wedi ei seilio ar bolisi'r Awdurdod Addysg Powys ac ar ddehongliad yr ysgol o ofynion Côd Ymarfer Anghenion Arbennig 2002. Caiff y 3 chyfnod statudol o Anghenion Arbennig Addysgol eu dehongli fel a ganlyn:

### Gweithredu gan yr ysgol

Mae aelodau o'r staff yn canfod yr Anghenion Arbennig ar gyfer y disgybl. Mae Cynllun Addysg Unigol yn cael ei baratoi ar gyfer y disgybl gan y Cyd-gysylltydd Anghenion Arbennig, Mr Iwan Biffin. Gall hyn olygu fod y disgybl yn derbyn sylw o fewn grŵp bychan ac yn ystod cyfnod di-wers.

### Gweithredu gan yr ysgol + mwy

Mae gan ddisgybl anawsterau cynyddol. Edrychir ar y Cynllun Addysg Unigol o'r newydd a gelwir am gymorth arbenigol e.e. therapydd lleferydd. Gall yr Awdurdod Addysg ariannu cymorth o fewn gwersi neu sylw un i un am awr neu ddwy'r wythnos yn ôl yr angen.

### Datganiad

Mae'r Seicolegydd Addysgol yn paratoi datganiad ffurfiol yn nodi anghenion a darpariaeth i ddisgyblion efo anawsterau mwy cymhleth a dwys sydd yn debyg o fod angen Cymhorthydd am ran helaeth o'r dydd.

Mae'r disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig yn cael eu hadnabod fel arfer gan yr ysgolion cynradd cyn iddynt drosglwyddo i Ysgol Bro Hyddgen, ond gall cyflwr corfforol, ymddygiad neu gyflwr cymdeithasol amlygu ei hun wrth i'r disgybl dyfu.

Mae llawr isaf yr ysgol o fewn cyrraedd pob disgybl. Mae'r cyfan ond tair o ystafelloedd yr ysgol ar y llawr isaf a gellir yn hawdd wneud addasiadau i amserlen yr ystafelloedd pe bai angen er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm llawn ar gael i bob disgybl.

Yn y Cynllun Hygyrchedd, bwriad y Corff Llywodraethol yw hwyluso mynediad hawdd i'r ysgol pan fo angen i ddisgyblion ac ymwelwyr gydag anhawsterau clywed neu weld, trwy ddarparu offer pwrpasol.

## Polisi Iaith

Mae gan yr ysgol bolisi iaith llwyddiannus iawn sydd yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu i'w llawn botensial. Ein nod yw datblygu'r disgyblion i fod mor rhugl ddwyieithog ag sy'n bosib erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae'r polisi hwn yn ddilyniant i waith ardderchog yr ysgolion cynradd lleol ac yn adlewyrchiad o strategaeth iaith Awdurdod Addysg Powys yn yr ardal hon. Rydym yn ymwybodol o fanteision deallusol ac addysgol dwyieithrwydd ac yn ceisio datblygu medrusrwydd ein disgyblion yn y ddwy iaith. Mae pob Adran yn ymwybodol o'u rôl yn datblygu sgiliau ieithyddol pob unigolyn ac mae'r athrawon yn sensitif o allu ieithyddol pob disgybl unigol.

# Pastoral



## Pastoral Care

The following members of staff implement and manage pastoral care:

- Mr Tegid Owen: Years 7, 8 , 9and Transition
- Miss Dela Wyn Jones: Years 10 and 11
- Mr Llifon Ellis: Years 12 and 13

This overview brings together all aspects of your child's development and is part of our caring atmosphere.

A brief daily period is held when the pupil's Form Tutor is able to monitor progress and get to know the individual members of the Form. If a problem occurs in the pupil's school life, this is a good opportunity to discuss the matter and receive advice. During the school year the Registration Tutor will also interview each pupil individually.

## Special Educational Needs

The school's Special needs Policy is based on the LEA Policy and the school's interpretation of the Special Educational Needs Code of Practice, 2002.

The 3 statutory classifications of SEN are interpreted as follows:

### School Action

Teachers identify needs. Individual Educational Plans (IEPs) are prepared by the ALN Co-ordinator, Mr Iwan Biffin. This may mean that the pupil will be given special attention within a small group during non-teaching periods.

### School Action +

Pupils continue to experience problems. IEP is reviewed by the SENCO. Further advice may be required e.g. speech therapist. The Local Authority may provide for additional support within the classroom or for 1 or 2 hours' individual attention every week according to the need.

### Statement

